Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

# Mae ymchwil yn bwysig: ein cynllun ar gyfer gwella ymchwil iechyd a gofal yng Nghymru

## 2022 - 2025

## Cynnwys_Toc118902639

1. Cyflwyniad ........ 3
2. Ynglŷn ag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ........ 3
3. Ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: ein sefyllfa ar hyn o bryd ........ 6
4. Ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU: y cyd-destun ehangach ........ 7
5. Pennu'r agenda ar gyfer ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol ........ 10
5.1 Datblygu strategaethau ymchwil ar gyfer Cymru a'r DU ........ 10
5.2 Nodi'r anghenion a'r blaenoriaethau ar gyfer ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol ........ 12
6. Ariannu a threfnu ymchwil ........ 14
6.1 Swyddogaeth a threfn ein cynlluniau ariannu ein hunain ........ 14
6.2 Partneriaethau gyda rhaglenni'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a rhaglenni arianwyr eraill ........ 15
6.3 Ariannu seilwaith ar gyfer canolfannau ac unedau ymchwil ........ 16
7. Datblygu capasiti a gallu ym maes ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol ... 18
7.1 Gyrfaoedd ymchwil a Chyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ........ 18
7.2 Arwain a chefnogi ymchwil yn y GIG yng Nghymru ........ 20
7.3 Arwain a chefnogi ymchwil ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru ...... 23
7.4 Defnyddio data ar gyfer ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol ........ 25
8. Defnyddio ymchwil i wella iechyd a gofal cymdeithasol ........ 26
9. Themâu trawsbynciol ........ 27
9.1 Cyfathrebu, ymgysylltu, a chyfranogiad ........ 27
9.2 Cynnwys cleifion a'r cyhoedd mewn ymchwil iechyd a gofal ........ 29
9.3 Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn ymchwil iechyd a gofal. 30
10. Casgliad: mae ymchwil yn bwysig pan fo ymchwil yn gweithio ........ 31

## 1. Cyflwyniad

Yn ystod pandemig COVID-19, fe wnaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a'i bartneriaid sefydlu a darparu 125 o astudiaethau COVID-19 ledled Cymru yn rhan o ymdrech ymchwil ar draws y DU gyfan. Cymerodd dros 60,000 o bobl yng Nghymru ran mewn ymchwil COVID-19, gan gynnwys deg o dreialon brechlyn rhyngwladol. Ni fu ymchwil erioed mor amlwg na'i effaith mor ddofn erioed o'r blaen.

Mae ein cynllun ar gyfer 2022-2025 yn nodi sut mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn bwriadu adeiladu ar yr etifeddiaeth hon i wella'r holl ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol, i ysgogi gwelliannau ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac i osod y sylfeini ar gyfer gwell canlyniadau i gleifion, pobl a chymunedau ledled Cymru.

Mae'r cynllun yn cynnig asesiad cryno â llygaid clir o'r sefyllfa bresennol o ran ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac yn cyflwyno ein huchelgeisiau a'r camau y byddwn yn eu cymryd dros y tair blynedd nesaf i gyflawni'r rhain. Yn gyntaf, mae'n amlinellu rôl a swyddogaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn erbyn cefndir y dirwedd ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan amlygu pwysigrwydd ymchwil, esbonio'r dirwedd gymhleth o gyllid a darpariaeth, a chrynhoi datblygiadau allweddol ar lefelau Cymru a'r DU. Mae'n canolbwyntio wedyn ar statws presennol y pedwar nod allweddol sy'n sail i'n cenhadaeth a'u cyflawniad yn y dyfodol. Ar gyfer pob nod allweddol, mae'n cyflwyno datblygiadau diweddar a phresennol ac yn amlinellu ein huchelgeisiau a'n camau gweithredu arfaethedig. Mae'n cloi trwy ddisgrifio sut mae tri maes trawsbynciol yn sylfaen i'n holl weithgareddau - cyfathrebu ac ymgysylltu; cynnwys cleifion a'r cyhoedd; a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

## 2. Ynglŷn ag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Cenhadaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yw hyrwyddo, cefnogi a darparu trosolwg cyfunol o waith ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru i sicrhau ei fod o'r ansawdd gwyddonol rhyngwladol uchaf, ei fod yn berthnasol i anghenion a heriau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, ac yn gwneud gwahaniaeth i bolisi ac arferion mewn ffyrdd sy'n gwella bywydau cleifion, pobl a chymunedau yng Nghymru.

I gyflawni'r genhadaeth hon, rydym wedi pennu pedwar nod allweddol i'n hunain:

1. **Pennu'r agenda ar gyfer gwaith ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol.** Rydym yn gweithio gyda'r holl randdeiliaid gan gynnwys cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd i bennu'r agenda ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu

iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan hyrwyddo ymchwil fel ysgogwr arloesedd a gwelliant ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

2. **Ariannu a threfnu gwaith ymchwil.** Rydym yn cydgysylltu ac yn trafod ag asiantaethau ariannu ymchwil yng Nghymru ac ar lefel y DU i gynllunio ac ariannu gwaith ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol. Ein nod yw gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau a sicrhau bod Cymru yn ymgysylltu cymaint â phosibl â chyllid ymchwil y DU a rhyngwladol. Rydym yn rhedeg ein cynlluniau ariannu ein hunain ac yn cymryd rhan mewn cynlluniau croes-arianwyr a phartneriaeth ag eraill.

3. **Datblygu capasiti a gallu ym maes ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol.** Rydym yn cydweithio fel rhwydwaith o brifysgolion, byrddau ac ymddiriedolaethau GIG, awdurdodau lleol a darparwyr gofal yng Nghymru i greu a chynnal gallu a chapasiti ym maes ymchwil ac i gynorthwyo sefydliadau i arwain, cyflawni a chefnogi gwaith ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol.

4. **Defnyddio gwaith ymchwil i wella iechyd a gofal cymdeithasol.** Rydym yn gweithio gydag arweinwyr systemau iechyd a gofal a'u sefydliadau i hybu'r defnydd effeithiol o ymchwil i arloesi a gwella, gan arwain at ledaenu a chynyddu'r gwelliannau hynny.

Ni allwn gyflawni'r nodau hyn heb weithio'n agos ac ar y cyd mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau eraill, yng Nghymru ac ar draws y DU.

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn sefydliad rhwydweithiol, wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru, sy'n dod ag amrywiaeth eang o bartneriaid ynghyd ar draws y DIG yng Nghymru, awdurdodau lleol, prifysgolion, sefydliadau ymchwil, y trydydd sector ac eraill.

Mae gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru dîm bach o weision sifil yn gweithio yn Is-adran Ymchwil a Datblygu'r Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru, ac fe'i hategir gan dîm mwy o staff a gyflogir gan y GIG sy'n gweithio yn ein Canolfan Cefnogi a Chyflenwi a gynhelir gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, yn ogystal â gweithlu ehangach ar draws y GIG, gofal cymdeithasol a'r sector prifysgolion.

Mae gennym gyllideb flynyddol o £47 miliwn (yn 2022/23) a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r tabl isod yn dangos yn fras sut y defnyddir y buddsoddiad hwnnw ar hyn o bryd.

**Crynodeb o gyllideb flynyddol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru**

| Maes | Disgrifiad | Gwariant |
|---|---|---|
| Canolfannau ac unedau ymchwil | Darparwyd cyllid craidd i tua 15 o ganolfannau neu unedau ymchwil wedi'u lleoli mewn SAUau yng Nghymru | £10.7 miliwn |
| Rhaglenni ymchwil | Cyllid ar gyfer prosiectau ymchwil a gomisiynwyd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru trwy alwadau rheolaidd am gynigion, ac ar gyfer ein cyfraniad at raglenni ymchwil a arweinir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd sy'n agored i ymchwilwyr o Gymru | £10.1 miliwn |
| Ymchwil ym myrddau ac ymddiriedolaethau'r GIG | Cyllid i gefnogi'r ddarpariaeth o waith ymchwil clinigol ym myrddau ac ymddiriedolaethau'r GIG ac ar gyfer seilwaith ymchwil a staffio | £16 miliwn |
| Canolfan Cefnogi a Chyflenwi | Cyllid i ddarparu gwasanaethau canolog fel gwasanaethau cydgysylltu a chymorth cenedlaethol ar gyfer cyflenwi ymchwil, gwybodaeth am berfformiad a busnes, systemau gwybodaeth, gwasanaethau hyfforddi, gweinyddu Cyfadrannau, cyfathrebu, gwasanaethau ymgysylltu a chynnwys y cyhoedd, a chynnal y gwasanaeth cymeradwyaeth ar gyfer Cymru | £3.6 miliwn |
| Datblygu capasiti a gallu ymchwil | Cyllid ar gyfer cynlluniau dyfarniadau personol a gweithgareddau datblygu ymchwilwyr a gyd-gysylltir gan Gyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru bellach | £4.9 miliwn |
| Gweithredu tystiolaeth a gwybodaeth | Cyllid ar gyfer Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i ddarparu synthesis tystiolaeth a gweithrediad gwybodaeth cyflym | £1.7 miliwn |

Cefnogir Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru gan ein Bwrdd Cynghori, sy'n bodoli i'n cynghori ar bob agwedd ar ein cenhadaeth, gan gynnwys cynghori ar gyfeiriad strategol ymchwil a datblygu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru; adolygu a chynnig sylwadau ar gynlluniau, rhaglenni gwaith, adroddiadau a

chyhoeddiadau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru; cynnig safbwyntiau a chyngor ar ariannu a threfnu gwaith ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru; a llunio safbwynt ar gyfraniad Cymru ar lefel y DU at waith ymchwil iechyd a gofal. Cadeirir y bwrdd gan Brif Swyddog Meddygol Llywodraeth Cymru ac mae'n cynnwys unigolion o amrywiaeth o sefydliadau ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol a'r gymuned ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol.

## 3. Ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: ein sefyllfa ar hyn o bryd

Mae pandemig COVID-19 wedi dangos yn eglur iawn gwerth ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol a'i bwysigrwydd i lunwyr polisi, arweinwyr iechyd a gofal cymdeithasol, a phobl a chymunedau wneud penderfyniadau da. Cynhyrchodd ymdrech ymchwil iechyd y DU therapiwteg, brechlynnau a thystiolaeth ar epidemioleg a rheoli heintiau a oedd yn ganolog i ymdrin â'r pandemig a'i ganlyniadau i gymdeithas. Ceir cefnogaeth enfawr ymhlith y cyhoedd i waith ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru – canfu arolwg diweddar gan Ipsos Mori bod 86% o ymatebwyr yn teimlo bod y DU wedi chwarae rhan sylweddol yn y broses o ddod o hyd i driniaethau COVID-19; mae 87% yn falch o ymchwilwyr y DU a'r staff GIG a nododd rai o'r triniaethau a'r brechlynnau effeithiol cyntaf; mae 91% yn teimlo'n ddiolchgar i'r bobl sydd wedi cymryd rhan yn y gwaith ymchwil ar gyfer brechlynnau, profion a thriniaethau; ac mae 78% yn awyddus i ymchwil iechyd fod yn rhan o ofal mater o drefn a gynigir gan y GIG.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd strategol gwaith ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol i economi Cymru ac i gymdeithas, gan ei nodi fel un o bum blaenoriaeth allweddol ar gyfer ymchwil ac arloesi mewn datganiad ysgrifenedig allweddol gan y Prif Weinidog yn 2021 a ddywedodd bod yn rhaid i ni "feithrin ein gallu ymchwil, datblygu ac arloesi yn y gwyddorau bywyd ac iechyd gan sicrhau bod Cymru'n bartner llawn o ran cyflawni Gweledigaeth Gwyddorau Bywyd y DU"[1].

Ymchwil iechyd a gofal yw'r sector mwyaf ar gyfer buddsoddiad ymchwil trwy gyllid llywodraeth/cyhoeddus a chan ddiwydiant yn y DU - tua £8.6 biliwn y flwyddyn, neu dros chwarter holl wariant ymchwil a datblygu'r DU - ac mae'n un o gryfderau allweddol economi'r DU. Daw'r cyllid hwnnw gan ddiwydiant (tua hanner) a chan arianwyr llywodraeth ac elusennol (yr hanner arall). Mae'r olaf yn cynnwys pedair prif ffrwd ariannu sydd wedi'u datganoli'n rhannol ac yn cael eu dal ar lefel y DU yn rhannol - adrannau iechyd; adrannau addysg/gwyddoniaeth; Ymchwil ac Arloesi yn y DU (cynghorau ymchwil); ac elusennau meddygol.

Ond mae buddsoddiad cyhoeddus mewn ymchwil iechyd a gofal yn dal i fod wedi'i ganolbwyntio yn Llundain, ac yn ne-ddwyrain Lloegr (mae 56% o'r holl gyllid yn

[1] https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-pum-blaenoriaeth-ar-gyfer-ymchwil-datblygu-ac-arloesi

mynd i sefydliadau yn Llundain, Rhydychen a Chaergrawnt). Mae Cymru yn sicrhau tua 2.4% neu hanner yr hyn a fyddai'n gyfystyr a'i chyfran cymesur i'r boblogaeth o gyllid llywodraeth/cyhoeddus ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Ar yr un pryd, mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn sylweddol is, yn gymesur, na chyllid yn Lloegr. Ar y cyfan, mae sector ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol Cymru wedi dioddef cyfnod maith o danfuddsoddiad parhaus â chanlyniadau difrifol i'w gapasiti a'i allu.

Cyhoeddodd Grŵp Traws-seneddol y Senedd ar ymchwil meddygol adroddiad yn 2021 yn seiliedig ar wrandawiadau a gynhaliwyd dros sawl mis a wnaeth bum prif argymhelliad:

1. Cyllid - cyfateb lefelau'r DU o gyllid yng ngrant ymchwil Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i brifysgolion ac yng nghyllideb Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
2. Cydweithredu – cefnogi a chymell partneriaeth academaidd a diwydiant ar draws a'r tu allan i Gymru, ac ymgysylltiad ag ymchwil yn y GIG yng Nghymru
3. Gyrfaoedd – darparu cyllid a chyfleoedd hirdymor ar gyfer gyrfaoedd ymchwil, gan gynnwys amser neilltuedig i academyddion clinigol a chlinigwyr, a chefnogaeth barhaus i gynllun Sêr Cymru i feithrin talent
4. Cleifion a'r cyhoedd – sicrhau bod pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gwaith ymchwil a bod ganddynt fynediad teg at dreialon clinigol
5. Effaith ymchwil - creu fforymau effeithiol ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth rhwng ymchwilwyr a llunwyr polisi, gan gynyddu'r defnydd o dystiolaeth newydd ym mholisi Llywodraeth Cymru

## 4. Ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU: y cyd-destun ehangach

Dylid ystyried y cynllun hwn yng nghyd-destun ehangach amrywiaeth o bolisïau llywodraeth y DU a strategaethau'r DU yn ymwneud ag ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol. Mae llawer o waith ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei ariannu a'i gyflawni ar lefel y DU, ac mae'n hanfodol ein bod yn cymryd y cyd-destun ehangach hwn i ystyriaeth, yn rhagweithiol o ran ceisio ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae tirwedd y DU yn eu cynnig i Gymru.

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn cynrychioli Llywodraeth Cymru a'r gymuned ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol mewn nifer o fforymau allweddol ar lefel y DU – fel y Swyddfa Cydlynu Strategol Ymchwil i Iechyd[2] a Cydweithredu ar Ymchwil Glinigol y DU[3] – ac mewn trafodaethau pedair gwlad gyda'n sefydliadau cyfatebol yn

---

[2] https://www.nihr.ac.uk/about-us/what-we-do/our-place-in-the-uk-research-landscape/oschr.htm
[3] https://www.ukcrc.org/

Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae datblygiadau diweddar allweddol yn cynnwys:

- Yn 2020, cyhoeddodd llywodraeth y DU fap ffordd ymchwil a datblygu ar gyfer y DU[4] a gyflwynodd yr uchelgeisiau ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd gan gydnabod yr angen i gymryd mwy o ystyriaeth o ganlyniadau seiliedig ar le o ran sut yr ydym yn gwneud penderfyniadau am ymchwil a datblygu yn y DU, gan sicrhau bod ein systemau ymchwil a datblygu yn gwneud eu cyfraniad llawnaf at ein hagenda ffyniant bro. Dywedodd y byddai llywodraeth y DU yn gweithio ar y cyd ar draws y DU gan feithrin mwy o gydweithredu a rhwydweithiau rhwng arianwyr, ymchwilwyr, ymarferwyr ac arweinwyr dinesig i ymwreiddio system sy'n cynnig budd economaidd lleol cryfach a chanlyniadau byw o ansawdd gwell o ymchwil a datblygu".

- Yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant tair blynedd a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd llywodraeth y DU y byddai'n cynyddu cyllid cyhoeddus ar gyfer ymchwil a datblygu i £20 biliwn y flwyddyn erbyn 2024/25 – cynnydd o tua chwarter mewn termau real, ac yn agos at y targed a gyhoeddwyd yn flaenorol o £22 biliwn[5]. Mae'r setliad hwn yn rhoi lle sylweddol ar gyfer twf ac ailddosbarthiad. Dywedodd yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant y bydd y llywodraeth yn sicrhau bod cyfran gynyddol o'r cynnydd mwyaf erioed o wariant y llywodraeth ar ymchwil a datblygu dros gyfnod SR21 yn cael ei buddsoddi y tu allan i Dde-ddwyrain Lloegr Fwyaf.

- Hefyd, darparodd yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant gynnydd sylweddol i gyllid ymchwil ar gyfer yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr (a'r symiau canlyniadol yn seilio o hynny i lywodraethau datganoledig o dan fformiwla Barnett). Mae'r setliad yn darparu £5 biliwn dros gyfnod SR21 ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu yn gysylltiedig ag iechyd. Mae hyn yn cynnwys y cynnydd arian parod mwyaf erioed ar gyfer ymchwil a datblygu iechyd, â chynnydd o £605 miliwn o gyllid 2021-22 erbyn 2024-25, sy'n golygu y bydd y buddsoddiad yn cynyddu i £2 biliwn y flwyddyn erbyn diwedd cyfnod SR21. Amlygwyd nifer o flaenoriaethau o fewn cyllideb ymchwil a datblygu honno yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys: £40 miliwn o fuddsoddiad newydd mewn gwaith ymchwil gofal cymdeithasol; £30 miliwn i gefnogi buddsoddiad mewn sgiliau a hyfforddiant ymchwil i gynyddu cyfleoedd i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, yn enwedig ym meysydd nyrsio, bydwreigiaeth, a'r proffesiynau perthynol i iechyd; £95 miliwn i'r Swyddfa Gwyddorau Bywyd ar gyfer gwireddu Gweledigaeth Gwyddorau Bywyd y llywodraeth; cyllid i brosiectau Genomics England gan gynnwys Generation Genome, rhaglen sgrinio babanod newydd-anedig arloesol newydd i ganfod

[4] https://www.gov.uk/government/publications/uk-research-and-development-roadmap
[5] https://www.gov.uk/government/publications/autumn-budget-and-spending-review-2021-documents

dros 200 o glefydau prin, a 'Data Amrywiol', i gynyddu cynrychiolaeth grwpiau lleiafrifoedd mewn ymchwil genomig; a gwaith ymchwil ar gyfer triniaethau COVID-19 sydd ar flaen y gad.

- Cyhoeddodd Ymchwil ac Arloesi yn y DU, sy'n dod â'r holl gynghorau ymchwil ynghyd ag Innovate UK a Research England, ei strategaeth pum mlynedd yn 2022[6]. Mae'n cyflwyno cynlluniau uchelgeisiol i wella capasiti ymchwil a datblygu'r DU a chynnal ei sefyllfa yn fyd-eang ac yn ymrwymo i gefnogi clystyrau ymchwil ac arloesi sy'n ffynnu ledled y DU, gan greu swyddi gwerth uchel amrywiol a thwf economaidd lleol.

- Cyhoeddodd llywodraeth y DU ei gweledigaeth gwyddorau bywyd yn 2021[7], a gyflwynodd strategaeth deng mlynedd i gyflymu ymchwil a'r ddarpariaeth o arloesiadau i gleifion. Roedd hyn yn cynnwys dulliau wedi'u harwain gan genhadaeth ac wedi'u hysgogi gan lywodraeth, diwydiant, y GIG, y bydd academaidd ac elusennau ymchwil meddygol i ddatrys rhai o broblemau gofal iechyd mwyaf ein cenhedlaeth, gan gynnwys canser, dementia, iechyd meddwl a gordewdra.

- Mae pob un o bedair gwlad y DU wedi cyflwyno gweledigaeth feiddgar ac uchelgeisiol ar gyfer dyfodol y ddarpariaeth o ymchwil clinigol[8], sy'n ceisio manteisio ar arloesedd, sy'n gydnerth yn wyneb heriau gofal iechyd y dyfodol ac sydd â'r nod o wella bywydau cleifion ledled y DU ac ym mhedwar ban byd. Mae hyn yn golygu ymwreiddio ymchwil clinigol wrth wraidd gofal cleifion ar draws y GIG, gan wneud cyfranogiad mor rhwydd â phosibl a sicrhau bod yr holl staff iechyd a gofal yn teimlo wedi'u grymuso i gefnogi gwaith ymchwil. Ac mae'r weledigaeth hefyd yn golygu manteisio ar ein cryfderau o ran data iechyd a chreu seilwaith digidol newydd i wneud y broses o sefydlu a darparu astudiaethau yn gynt, yn fwy effeithlon ac yn fwy arloesol, fel bod y DU yn parhau i fod yn un o'r lleoedd gorau yn y byd i ddarparu gwaith ymchwil sydd ar flaen y gad.

Fel y mae'r rhestr faith hon o ddatblygiadau diweddar yn ei ddangos, mae hwn yn gyfnod o newid cyflym a sylfaenol yn y dirwedd ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU. Mae hyn yn golygu bod cyfleoedd i wella gwaith ymchwil ac arloesi yng Nghymru a pheryglon nad yw cymuned ymchwil Cymru a GIG a system gofal cymdeithasol Cymru yn elwa fel y dylent o fuddsoddiadau newydd mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol ac o'r datblygiadau gofal a thriniaeth y maent yn eu cynhyrchu.

[6] https://www.ukri.org/publications/ukri-strategy-2022-to-2027/
[7] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1013597/life-sciences-vision-2021.pdf
[8] https://www.gov.uk/government/publications/the-future-of-uk-clinical-research-delivery/saving-and-improving-lives-the-future-of-uk-clinical-research-delivery

Mae gweddill y cynllun hwn yn bwriadu cyflwyno sut rydym yn mynd i geisio ymateb i gyflymder y newid a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ar gyfer pob un o'r pedwar nod a gyflwynir yn adran 2, rydym yn cynnig asesiad o'r sefyllfa bresennol a chrynodeb o ddatblygiadau diweddar, ac rydym yn amlinellu nifer o gamau arfaethedig yn adrannau 5-8 isod. Rydym yn cloi yn adran 9 wedyn gyda nifer o feysydd gwaith trawsbynciol sy'n gysylltiedig â phob un o'n pedwar prif nod.

## 5. Pennu'r agenda ar gyfer ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol

Rydym yn gweithio gyda'r holl randdeiliaid gan gynnwys cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd i bennu'r agenda ar gyfer ymchwil a datblygu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan hyrwyddo gwaith ymchwil fel ysgogwr arloesedd a gwelliant ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

### 5.1 Datblygu strategaethau ymchwil ar gyfer Cymru a'r DU

Rydym yn credu y dylai fod gan bob sefydliad iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru fod â strategaeth – neu fod yn rhan o un – ar gyfer ymchwil ac arloesi a dylent fod â threfniadau eglur ar gyfer arweinyddiaeth ar gyfer ymchwil ac arloesi ar lefel bwrdd neu uwch dîm rheoli. Ein swyddogaeth ni yw gweithio gyda sefydliadau i'w helpu i ddatblygu a darparu eu strategaethau a'u cynlluniau ymchwil, gan gynnig ein gwybodaeth ehangach o'r dirwedd a'r ecosystem ymchwil a darparu cymorth ac ymgysylltiad adeiladol. Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys:

- **Gofal cymdeithasol.** Ym mis Chwefror 2018, cyhoeddodd Gofal Cymdeithasol Cymru *y Strategaeth ymchwil a datblygu gofal cymdeithasol i Gymru 2018-2023* mewn partneriaeth ag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae gweithredu'r strategaeth wedi bod yn hollbwysig i symud ymchwil gofal cymdeithasol ymlaen, yn enwedig mewn meysydd fel defnydd o ddata presennol ac a gesglir fel mater o drefn, cyfranogiad cyhoeddus, pennu blaenoriaethau ar gyfer galwadau ariannu yn ogystal ag amrywiaeth o fentrau i wella tystiolaeth ymchwil mynediad a mabwysiadu i arferion. Er ein bod wedi gwneud cynnydd da o ran gweithredu elfennau'r strategaeth, ceir bylchau mewn sgiliau gwerthuso polisi ac ymchwil ar draws gofal cymdeithasol i oedolion ac i blant, yn ogystal ag yn y seilwaith, y capasiti a'r gallu ar gyfer gwneud gwaith ymchwil a'i ddefnyddio i gyfoethogi polisi ac arferion. Mae gwaith wedi cychwyn i lunio'r camau nesaf gan weithio mewn partneriaeth â thimau polisi Llywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru, yn benodol yn ymwneud â datblygu ein gweithlu ymchwilwyr yn y dyfodol trwy Gyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a chryfhau arweinyddiaeth gofal cymdeithasol i oedolion, ac fe'i hadlewyrchir yn y cynllun hwn.

- **Canser.** Ym mis Gorffennaf 2022, fe wnaethom gyhoeddi'r strategaeth ymchwil canser gydgysylltiedig gyntaf i Gymru[9]. Datblygwyd y strategaeth mewn partneriaeth â Rhwydwaith Canser Cymru a Chanolfan Ymchwil Canser Cymru, gyda mewnbwn gan gleifion, aelodau'r cyhoedd ac ymchwilwyr canser eraill, ac mae'n canolbwyntio ar chwe thema ymchwil o flaenoriaeth lle ceir hanes o ragoriaeth yng Nghymru eisoes, y gellir ei ddatblygu ymhellach i arwain yn rhyngwladol. Y nod yw datblygu mas critigol a phlatfform cynaliadwy ar gyfer ymchwil canser ar gyfer y themâu blaenoriaeth y gall cryfderau eraill ddeillio ohonynt wedyn. Mae'r themâu a argymhellir yn cyd-fynd yn dda â mentrau a rhaglenni cenedlaethol yng Nghymru a'r DU gyfan. Maent hefyd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer cydweithredu ymchwil traws-thema ym maes canser a chydag ymchwil nad yw'n ymwneud â chanser a chyda phartneriaid trydydd sector a diwydiant.

- **Genomeg.** Rydym wrthi'n gweithio gyda chydweithwyr polisi sy'n arwain ar gynlluniau gofal iechyd genomig Cymru mewn ymateb i strategaeth genomeg llywodraeth y DU[10], i sicrhau bod rhagoriaeth ac arbenigedd ymchwil Cymru yn cael eu hadlewyrchu mewn cynlluniau gweithredu cenedlaethol a'r DU a bod ymchwilwyr Cymru yn gallu arwain a chyfrannu at y cyfleoedd sy'n deillio o'r ymrwymiadau ar lefel y DU a rennir (fel *Our Future Health* a Menter Genomeg Weithredol Cyngor Ymchwil Feddygol y DU). Gan weithio ar y cyd ag ymchwilwyr, cleifion a sefydliadau allweddol, gan gynnwys Parc Geneteg Cymru, Partneriaeth Genomeg Cymru a Gwasanaeth Geneteg Meddygol Cymru Gyfan, rydym wrthi'n cynnal ymarfer cwmpasu i asesu meysydd o gryfder, blaenoriaethau a meysydd o ragoriaeth sy'n dod i'r amlwg ac i gefnogi datblygiad strategaeth ymchwil genomeg.

- **Clefydau prin.** Mae cynllun gweithredu ar glefydau prin Cymru 2022-26[11] a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn amlinellu nifer o gamau i godi proffil ymchwil clefydau prin ac yn cyfleu pwysigrwydd mynediad at ddiagnosteg a thriniaethau ar gyfer clefydau prin ac o gymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil.

Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i weithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, y GIG ac ym maes gofal cymdeithasol i ddatblygu strategaethau effeithiol y gellir eu cyflawni ar gyfer ymchwil sy'n cyd-fynd yn dda â strategaethau a chynlluniau sefydliadol ehangach ac wedi'u hintegreiddio â nhw. Dyma'r camau penodol:

---

[9] https://walescancerresearchcentre.org/wp-content/uploads/CReSt-Welsh-FINAL.pdf
[10] https://www.gov.uk/government/publications/genome-uk-the-future-of-healthcare
[11] https://cydweithrediad.gig.cymru/grwpiau-gweithredu/clefydau-prin1/cynllun-gweithredu-clefydau-prin-cymru-2022-2026/

- Byddwn yn gweithio gyda byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd y GIG i hybu datblygiad eu strategaethau ymchwil ac arloesi, ac i gyd-gynhyrchu fframwaith cyffredin ar gyfer ymwreiddio ymchwil yn y GIG, gan asesu capasiti, ymgysylltiad a darpariaeth ymchwil
- Rydym wrthi'n cymryd rhan mewn trafodaethau cynnar gyda rhanddeiliaid ynglŷn â mentrau yn y cyd yn y dyfodol ar strategaethau a chynlluniau ymchwil ym maes iechyd y cyhoedd ac ymchwil nyrsio i Gymru – yn debyg i'r gwaith a amlinellir uchod yn ymwneud â chanser, genomeg a gofal cymdeithasol.
- Byddwn yn sefydlu cyfarfodydd rheolaidd gydag arianwyr ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol allweddol y DU i hybu mwy o ymgysylltiad â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill
- Byddwn yn ceisio'r ymgysylltiad mwyaf posibl â fforymau a thrafodaethau ar lefel y DU ar y cam cynharaf o ran strategaethau ymchwil - mae enghreifftiau yn cynnwys strategaeth Ymchwil ac Arloesi yn y DU a gyhoeddwyd yn ddiweddar, y strategaethau a'r cynlluniau a fydd yn dilyn gan gynghorau ymchwil, yn enwedig y Cyngor Ymchwil Feddygol a'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol; a strategaethau arianwyr elusennol allweddol fel Wellcome Trust, Cancer Research UK a Sefydliad Prydeinig y Galon.

## 5.2 Nodi'r anghenion a'r blaenoriaethau ar gyfer ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol

Mae sicrhau bod yr ymchwil yr ydym ni ac arianwyr eraill yn ei gomisiynu yn mynd i'r afael â chwestiynau sy'n adlewyrchu angen cyhoeddus, polisi ac arfer yn hanfodol i sicrhau bod y tebygolrwydd y bydd gwaith ymchwil yn cael effaith a gwerth gwirioneddol mor uchel â phosibl. Mae gwaith nodi angen a phennu blaenoriaethau o'r fath fwyaf effeithiol pan fydd yn cael ei wneud gyda chyfranogiad y rhai a fydd yn defnyddio ac yn cael eu heffeithio gan y canfyddiadau ymchwil.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi datblygu a threialu ein proses blaenoriaethu ymchwil gan ddilyn egwyddorion Partneriaethau Pennu Blaenoriaethau y James Lind Alliance, ond eu haddasu a'u gweithredu mewn modd wedi'i symleiddio i nodi'r cwestiynau ymchwil blaenoriaeth "deg uchaf" mewn meysydd o angen cyhoeddus, polisi ac ymarfer dybryd. Bwriadwyd i'n hymateb fod yn gyflymach na Phartneriaethau Pennu Blaenoriaethau traddodiadol y James Lind Alliance ac fe'i crëwyd mewn partneriaeth â'r James Lind Alliance, a chyda chydweithwyr yn Gofal Cymdeithasol Cymru y cafodd ei dreialu â nhw.

Mae'r broses yn cynnwys - gofyn am safbwyntiau ar y cwestiynau a'r materion sy'n bwysig i ymarferwyr a'r rhai sydd angen neu'n derbyn gwasanaethau a/neu gymorth; grwpio ymatebion cychwynnol yn themâu; nodi'r cwestiynau pwysicaf o fewn y themâu hynny a'u rhoi yn nhrefn eu pwysigrwydd; troi'r rhestr a luniwyd o bryderon a

chwestiynau yn gwestiynau ymchwil; ac yna ceisio rhoi'r cwestiynau ymchwil hynny mewn galwadau am gyllid a gynhelir naill gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru neu arianwyr ymchwil eraill fel y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd, y Cyngor Ymchwil Feddygol neu'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

Rhoddodd yr ymarfer cyntaf o'r fath sylw i'r mater o sut y gallwn ddarparu gofal a chymorth cynaliadwy yn y ffordd orau i helpu pobl hŷn i weithio bywydau hapusach a mwy bodlon. Cyhoeddwyd adroddiad ar yr ymarfer a ddisgrifiodd y deg blaenoriaeth ymchwil uchaf[12] ar wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, a rhannwyd y blaenoriaethau gydag arianwyr eraill yn y DU. Mae ail ymarfer, yn canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf wrth ddatblygu gwasanaethau cymorth i deuluoedd yng Nghymru, ar y gweill, eto mewn partneriaeth â Gofal Cymdeithasol Cymru.

O fis Ebrill 2023, bydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ariannu Canolfan Dystiolaeth newydd gan ddarparu capasiti ar gyfer synthesis tystiolaeth cyflym ac ymchwil sylfaenol i ddiwallu anghenion polisi, ymarfer a rhanddeiliaid cyhoeddus. Trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, bydd y Ganolfan Dystiolaeth hefyd yn darparu strwythurau a phrosesau ar gyfer nodi a blaenoriaethu cwestiynau ymchwil sydd angen atebion naill ai trwy synthesis tystiolaeth neu ymchwil sylfaenol newydd.

Dyma'r camau allweddol:

- Byddwn yn cynnal ymarferion pennu blaenoriaethau pellach – dau y flwyddyn fwy na thebyg – yn mynd i'r afael â blaenoriaethau Gweinidogion Cymru a'u *Rhaglen Lywodraethu* a blaenoriaethau neu bynciau sy'n deillio o'n hymgysylltiad â sefydliadau rhanddeiliaid eraill yng Nghymru. Mae pynciau a allai gael eu harchwilio yn 2023 yn cynnwys iechyd menywod ac anghydraddoldebau rhwng y rhywiau ym maes ymchwil, ac integreiddio gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Byddwn yn defnyddio'r prosesau pennu blaenoriaethau hyn yn fwy gweithredol a phendant i fwydo ein rhaglenni comisiynu ymchwil ein hunain (gweler adran 6 isod) ac i ddarparu syniadau a blaenoriaethau ar gyfer ymchwil i arianwyr eraill.
- Byddwn yn parhau i ymgysylltu â phwyllgorau a byrddau ariannu rhaglenni'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd y bydden yn partneru â nhw a chyda thîm nodi syniadau a blaenoriaethu'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd sydd wedi'i leoli yn NETSCC yn Southampton, i rannu anghenion a blaenoriaethau ymchwil a chynyddu nifer y cwestiynau ymchwil o Gymru a ystyrir ar gyfer galwadau a gomisiynwyd yn y rhaglenni hyn.

[12] https://ymchwiliechydagofalcymru.org/mae-blaenoriaethau-ymchwil-newydd-yw-anelu-helpu-pobl-hyn-i-fyw-bywydau-hapusach-mwy-boddhaus

## 6. Ariannu a threfnu ymchwil

Rydym yn cydgysylltu ac yn trafod ag asiantaethau ariannu ymchwil yng Nghymru ac ar lefel y DU i gynllunio ac ariannu ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol. Ein nod yw gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau a sicrhau bod Cymru yn ymgysylltu cymaint â phosibl â chyllid ymchwil ar lefelau'r DU a rhyngwladol. Rydym yn cynnal ein cynlluniau ariannu ein hunain ac yn cymryd rhan mewn cynlluniau croes-arianwyr a phartneriaeth ag eraill.

### 6.1 Swyddogaeth a threfn ein cynlluniau ariannu ein hunain

Mae gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru amrywiaeth o gyfleoedd ariannu ymchwil yn seiliedig ar brosiectau trwy gyfres o gynlluniau a dyfarniadau. Ar hyn o bryd, mae'r rhain yn cynnwys y rhaglen Ymchwil er budd Cleifion a'r Cyhoedd Cymru gyda'r GIG, a galwadau am grantiau ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol ar wahân fel canghennau annibynnol o'n Cynllun Ariannu Ymchwil. Mae'r cynlluniau hyn wedi gweithredu galwadau blynyddol (neu bob dwy flynedd) â phroses ymgeisio dau gam.

Gall amrywiaeth o fuddion ddeillio o'r cynlluniau hyn gan gynnwys: ariannu prosiectau sy'n cael effaith yn diwallu anghenion polisi ac arferion yn uniongyrchol yng Nghymru a thu hwnt; cyfraniadau at ddatblygiad sail dystiolaeth gyffredinol i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol; gwella capasiti a gallu, gan roi'r cyfle yn aml i unigolion ddatblygu portffolio neu arwain tîm ymchwil am y tro cyntaf; cefnogaeth i waith rhagarweiniol, peilot neu ymarferoldeb sy'n arwain at geisiadau am gyllid mwy uchelgeisiol, yn enwedig i arianwyr mawr y DU.

I wneud y defnydd mwyaf posibl o'n cyllid ymchwil a sicrhau'r effaith fwyaf posibl o'r gwaith ymchwil rydym yn ei ariannu, byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Adolygu a symleiddio cynlluniau ariannu ar wahân presennol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, i wella effeithlonrwydd ein prosesau a chynyddu amlder ein galwadau a'n cyfleoedd cyllid, gan sicrhau bod ymchwil mewn meysydd lle mae datblygu capasiti yn hollbwysig, fel gofal cymdeithasol, yn parhau i gael ei ddiogelu a'i gynorthwyo'n ddigonol.
- Ceisio ychwanegu cangen a gomisiynwyd at y trefniadau newydd a all gysylltu â'r prosesau pennu blaenoriaethau a amlinellir uchod ac a fydd yn sicrhau ein bod yn rhagweithiol ac yn ystwyth o ran ariannu ymchwil sy'n diwallu anghenion pwysig a brys Llywodraeth Cymru a system y GIG a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

## 6.2 Partneriaethau gyda rhaglenni'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a rhaglenni arianwyr eraill

Yn ogystal â chynnal ein cynlluniau ariannu ymchwil ein hunain, mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn gwneud cyfraniadau ariannu at amrywiaeth o raglenni'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd sy'n cynnig ffrydiau ariannu sylweddol i brosiectau mwy o faint a mwy uchelgeisiol. Mae cyfranogiad Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn caniatáu i ni gyfrannu at bennu'r blaenoriaethau ariannu a'r pynciau galw ar gyfer y rhaglenni hyn ac yn rhoi'r cyfle i ymchwilwyr o sefydliadau yng Nghymru gyflwyno ceisiadau iddynt. Dyma raglenni'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd yr ydym yn partneru â nhw ac yn cyfrannu atynt:

- Gwerthuso Effeithiolrwydd a Mecanweithiau (wedi'i gyd-ariannu gyda'r Cyngor Ymchwil Feddygol);
- Asesiad Technoleg Iechyd;
- Ymchwil Gwasanaeth Iechyd a Darparu; ac
- Ymchwil Iechyd Cyhoeddus

Hefyd, mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd yn gweinyddu'r rhaglen ymchwil iechyd fyd-eang gyda chyllid Cymorth Datblygu Tramor ar ran llywodraeth y DU, ac mae'r rhaglen hon yn agored i'r holl ymchwilwyr ledled y DU.

Mae mynediad at y cynlluniau hyn yn galluogi ein hymchwilwyr i gystadlu ar lefel y DU ac yn cynnig y cyfle i gynhyrchu incwm ymchwil sylweddol i Gymru trwy arwain neu gydweithredu ar brosiectau sy'n debygol o gael effaith gref.

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru hefyd yn gweithio gydag arianwyr eraill, gan gynnwys ein timau cyfatebol yn adrannau iechyd eraill y DU, cynghorau ymchwil Ymchwil ac Arloesi yn y DU ac arianwyr ymchwil elusennol, i greu cyfleoedd ariannu newydd mewn meysydd o gyd-fuddiant ac angen tybiedig.

Rydym yn darparu cyllid ar y cyd o fewn trefniadau partneriaeth gyda rhai arianwyr eraill gan gynnwys cyfranogiad ym Mhartneriaeth Ymchwil Atal y DU croes-arianwyr gwerth £50 miliwn; cyd-ariannu portffolio o brosiectau drwy waith ymchwil y Gydraglen – Clefyd Niwroddirywiol gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, HSCNI a Chymdeithas Alzheimer's; buddsoddiad mewn rhaglen o waith ymchwil ar greithiau a llawdriniaeth adluniol ym Mhrifysgol Abertawe gyda'r Scar Free Foundation; a chyd-ariannu prosiectau ymchwil i'r llygaid mewn cydweithrediad â Fight For Sight a Phrif Gynghorydd Optometrig Llywodraeth Cymru.

Rydym yn aelod o fforwm arianwyr rhyngwladol Ensuring Value in Research (EViR)[13], ac yn gweithio gydag arianwyr eraill, gan gynnwys y Sefydliad

[13] https://evir.org/

Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (Lloegr), y Sefydliad Ymchwil Canlyniadau sy'n Canolbwyntio ar y Claf (UDA), ZonMW (yr Iseldiroedd), y Bwrdd Ymchwil Iechyd (Iwerddon), Forte (Sweden) ac eraill, i wella arferion ariannu ymchwil i sicrhau bod yr ymchwil yr ydym yn ei ariannu yn cael yr effaith fwyaf posibl.

Byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Parhau i sicrhau ein bod yn ymgysylltu cymaint â phosibl (ochr yn ochr ag adrannau cyfatebol o'r Alban a Gogledd Iwerddon) â chynlluniau ariannu a arweinir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd yn Lloegr ac annog (trwy ein cyllid craidd ar gyfer canolfannau ac unedau ymchwil er enghraifft) sefydliadau Cymru yn gryf i wella eu perfformiad o ran sicrhau cyllid o'r ffynonellau hyn a ffynonellau ariannu eraill yn y DU
- Ceisio cyfleoedd pellach ar gyfer partneriaethau cydariannu gydag arianwyr eraill yn enwedig lle byddant yn diwallu anghenion ymchwil Cymru ac yn ysgogi a chefnogi datblygiad capasiti a gallu ymchwil yng Nghymru

## 6.3 Ariannu seilwaith ar gyfer canolfannau ac unedau ymchwil

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn darparu cyllid craidd ar gyfer amrywiaeth o ganolfannau, unedau neu grwpiau ymchwil sydd wedi'u lleoli mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru[14]. Diben ein cyllid craidd yw cefnogi, cynnal a thyfu capasiti a gallu ymchwil yng Nghymru mewn meysydd sy'n berthnasol i angen ymchwil Cymru a lle ceir mas critigol o ymchwil sy'n rhagorol ar lefelau'r DU a rhyngwladol. Ceir tystiolaeth o hyn trwy arweinyddiaeth academaidd, strategaeth, incwm a pherfformiad grant ymchwil, cyhoeddiadau, partneriaethau, tystiolaeth o barch ac effaith, cynaliadwyedd a chymorth sefydliadol canolfannau o'r fath.

Rydym yn disgwyl i grantiau seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ariannu gweithgareddau na ellir eu hariannu fel rheol trwy incwm/grantiau ymchwil allanol – felly ni fyddai grantiau fel rheol yn ariannu prosiectau ymchwil yn uniongyrchol, ond gallai canolfannau eu defnyddio at amrywiaeth o ddibenion gan gynnwys:

- Datblygu, cynnal a rhyddhau samplau biolegol ar gyfer ymchwil;
- Darparu capasiti ac arbenigedd craidd ar gyfer cysylltiadau data dienw a diogel;
- Ariannu technegwyr labordy, biowybodegyddion a swyddi technegol eraill;
- Darparu capasiti methodolegol, rheoli treialon neu ystadegol craidd nad yw'n benodol i brosiect;
- Cynnal rhwydweithiau o ymchwilwyr â buddiant a chysylltiedig;
- Ariannu grwpiau datblygu ymchwil a gweithgareddau blaenoriaethu ymchwil;
- Cefnogi grwpiau cyfranogiad cyhoeddus arbenigol;
- Ariannu gweithwyr gweithredu gwybodaeth proffesiynol;

[14] https://ymchwiliechydagofalcymru.org/amdanom-ni/cymuned-ymchwil

- Darparu capasiti ar gyfer sganio’r gorwel, datblygu ceisiadau ymchwil ac ysgrifennu papurau i’w cyhoeddi’n academaidd;
- Darparu cymorth ar gyfer gweithgareddau hyrwyddo, ymgysylltu a chyfathrebu;
- Dod â gweithgareddau o’r fath ynghyd i gefnogi gwaith Canolfan Ymchwil gydlynol.

Cylch gwaith craidd pob grŵp yw datblygu, cefnogi a chynnal portffolio ymchwil o ansawdd uchel mewn meysydd o angen ymchwil sefydledig. Mae portffolios yn cynnwys sicrhau grantiau mawr gan arianwyr yn y DU gan gynnwys cynghorau ymchwil y DU, fel y Cyngor Ymchwil Feddygol, y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a’r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd. Yn gyffredinol, rydym yn disgwyl enillion o leiaf pum gwaith yn fwy na’r buddsoddiad. Mewn geiriau eraill, dylai ein cyllid craidd i ganolfan neu uned ganiatáu iddynt ddenu, dros amser, o leiaf pum gwaith cymaint o gyllid ymchwil gan arianwyr eraill.

Er bod metrigau a adroddir yn flynyddol yn awgrymu bod darparu’r math hwn o gyllid yn ffordd hynod effeithiol o gynorthwyo’r broses o sicrhau grantiau, mae’n anodd mesur yr effaith uniongyrchol. Rydym yn casglu amrywiaeth o fetrigau ymchwil ac yn gofyn am adroddiad naratif blynyddol gan bob canolfan, ac rydym yn cynnal adolygiad blynyddol gyda thîm arweinyddiaeth pob canolfan ac yn cynnig adborth ar berfformiad. Cynhaliwyd rownd ariannu ar gyfer canolfannau ac unedau gennym ddiwethaf yn 2019 ac mae’r rhan fwyaf o’r dyfarniadau cyfresol yn para am gyfnod o bum mlynedd yn dod i ben ym mis Mawrth 2025 ac felly maent wedi cael dau adolygiad blynyddol yn y rownd ariannu gyfredol hyd yma.

Byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Byddwn yn parhau i reoli perfformiad pob canolfan ac uned gyfredol yn weithredol i sicrhau disgwyliadau a rennir o ran arferion da a pherfformiad, ac i gynnig rownd bellach (diwedd blwyddyn 3) o adborth.
- Byddwn yn datblygu fframwaith eglur ar gyfer asesu y byddwn yn ei rannu gyda’r holl ganolfannau ac unedau cyfredol ac yn ei wneud ar gael i eraill i hysbysu ein strategaeth ariannu yn y dyfodol.
- Byddwn yn datblygu ein cynlluniau ar gyfer y rownd ariannu nesaf, gan gymryd i ystyriaeth perfformiad canolfannau ac unedau a ariennir ar hyn o bryd a’r ddadl dros fuddsoddiad mewn meysydd eraill. Trwy wneud hynny, byddwn yn ymgysylltu â sefydliadau addysg uwch Cymru i ddeall eu blaenoriaethau strategol a meysydd buddsoddi arfaethedig.
- Yna, byddwn yn datblygu ac yn cynnal galwad ariannu seilwaith newydd â phwyslais strategol a fydd yn rhoi’r cyfle i grwpiau presennol a newydd i wneud cais am gymorth y tu hwnt i fis Mawrth 2025. Mae’r alwad ariannu honno’n debygol o gael ei chynnal ddiwedd 2023/dechrau 2024 i roi amser digonol ar gyfer pontio cyllid.

## 7. Datblygu capasiti a gallu ym maes ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol

Rydym yn cydweithio fel rhwydwaith o brifysgolion, byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd y GIG, awdurdodau lleol a darparwyr gofal yng Nghymru i greu a chynnal gallu a chapasiti ym maes ymchwil ac i gynorthwyo sefydliadau i arwain, cyflawni a chefnogi ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol.

### 7.1 Gyrfaoedd ymchwil a Chyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Yn 2020/21, dechreuodd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru gyd-adolygiad o'r llwybrau gyrfaoedd a hyfforddiant/datblygiad ar gyfer ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol gyda'r nod o alluogi capasiti a gallu ym maes ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Nododd yr adroddiad o adolygiad "*Hyrwyddo Gyrfaoedd Mewn Ymchwil*" o lwybrau gyrfaoedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru[15], a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2022, ddau ar bymtheg o argymhellion gyda'r nod o wella cyfleoedd ar draws llwybrau gyrfaoedd ymchwil i ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Tynnodd yr adolygiad sylw penodol at y swyddogaeth hollbwysig y gall cymorth, canllawiau, cynlluniau mentora ac esiamplau ei chyflawni i greu diwylliant ymchwil ledled y wlad a nododd yr angen am gyfleoedd ariannu mwy cynhwysol ar draws y llwybrau gyrfaoedd ymchwil, gan gynnwys, er enghraifft, cynllun disodli cyflog ar gyfer astudiaethau lefel ddoethuriaeth a gwell cymorth cyn-ddoethurol a fydd yn caniatáu i ymgeiswyr o Gymru gyflwyno ceisiadau cystadleuol i arianwyr y DU gyfan (llywodraeth, cyngor ymchwil ac asiantaethau ariannu elusennol yn ogystal â mathau eraill o arianwyr).

Rhoddwyd cyfrifoldeb cyffredinol i Grŵp Gweithredu Llwybr Gyrfaoedd Ymchwil ar y cyd rhwng Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru am gyfarwyddo yr ymatebion strategol a sefydliadol cyffredin ar draws (a) strategaeth, cyllid, ac arweinyddiaeth; (b) seilwaith; (c) diwylliant ac ecosystem ac (ch) cyfathrebu, i fwrw ymlaen â datblygiad capasiti a gallu ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel yng Nghymru. Mewn partneriaeth, byddwn yn ceisio sicrhau dull sy'n codi proffil gyrfaoedd ymchwil yng Nghymru ac yn unioni gwahaniaethau o ran cyfleoedd datblygu i ymchwilwyr, ac yn hybu cyfrifoldeb a rennir am ddatblygu gyrfaoedd ymchwil trwy well cydweithrediad ymhlith rhanddeiliaid allweddol a grwpiau seilwaith.

---

[15] https://ymchwiliechydagofalcymru.org/newydd-argymhellion-datblygu-ymchwilwyr-iechyd-cymdeithasol-gofal

Byddwn yn gweithio i hybu cyfleoedd i integreiddio gwaith ymchwil i hyfforddiant proffesiynol o gam cynnar, yn annog sefydliadau GIG ac awdurdodau lleol i flaenoriaethu rhagoriaeth sgiliau ymchwil yn eu gweithlu, yn buddsoddi mewn cyfleoedd ymchwil academaidd, academaidd clinigol ac eraill o fewn eu sefydliadau, ac yn codi ymwybyddiaeth o waith ymchwil ar draws y sbectrwm o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, eu sefydliadau cyflogi a'u rheoleiddwyr.

Byddwn yn derbyn mewnbwn cynghorol ac yn sicrhau ymgysylltiad rhanddeiliaid cynhwysfawr trwy Grŵp Cyngor ar Lwybrau Gyrfaoedd Ymchwil y DU gyfan. Pan fydd angen penodol a nodwyd, bydd Grwpiau Gorchwyl a Gorffen cysylltiedig yn cael eu sefydlu ac yn adrodd yn ôl i'r Grŵp Gweithredu Llwybrau Gyrfaoedd Ymchwil. Dros amser, bydd yr ymrwymiad cydweithredol a chydgysylltiedig i ddatblygu datblygiad a chreu capasiti gyrfaoedd ymchwilwyr ar draws y parthau eang, fel y nodir yn yr argymhellion sy'n deillio o adolygiad "*Hyrwyddo Gyrfaoedd Mewn Ymchwil*" o lwybrau gyrfaoedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, yn sicrhau bod ein cenedlaethau o ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol wedi'u paratoi a'u cynorthwyo'n well i arwain a chyflawni ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol rhagorol.

Fel cam allweddol yn y broses o fynd i'r afael a'r argymhellion, sefydlwyd Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru fel colofn graidd o lwybr gyrfaoedd cenedlaethol yn darparu cymorth, canllawiau a hyfforddiant i bob ymchwilydd, ar bob cam ac ar draws pob proffesiwn, gyda'r nod o ddatblygu cymuned ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol gyfunol sy'n sicr o amgylchedd cefnogol sy'n caniatáu iddynt wneud eu gwaith ymchwil gydag effaith a chynnydd ar hyd eu llwybrau gyrfaoedd ymchwil unigol.

Bydd Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn:

- Cydgysylltu a goruchwylio amrywiaeth o gynlluniau dyfarniadau ymchwil personol sydd ar gael yn eang (ac wedi'u targedu yn ôl yr angen) ar gyfer ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol ar draws proffesiynau ac ar wahanol gamau o'u gyrfaoedd
- Cyhoeddi data cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ymchwilwyr a datblygu cynlluniau gweithredu er mwyn helpu i hwyluso cynrychiolaeth gyfartal pob grŵp, ar draws camau gyrfaoedd a phroffesiynau, ym mhoblogaeth ymchwilwyr Cymru
- Bwrw ymlaen â'r dysgu a datblygiad a'r fentoriaeth unigol a chymheiriaid sydd eu hangen ar ddeiliaid ein dyfarniadau iechyd a gofal cymdeithasol personol i ddatblygu eu gyrfaoedd ymchwil
- Meithrin rhyngweithio a rhwydweithio rhyng-ddisgyblaeth ar draws y gymuned gyfadran o ddeiliaid dyfarniadau iechyd a gofal cymdeithasol personol o bob cefndir ac o bob ardal o Gymru

- Galluogi cyfleoedd ar gyfer rhannu ymchwil cyfadran o ansawdd uchel gyda chymunedau perthnasol yn y DU ac yn rhyngwladol gyda’r nod o godi ymwybyddiaeth o broffil gwaith ymchwil Cymru a hybu cyfleoedd gyrfaoedd ymchwil yr ymchwilwyr eu hunain.

## 7.2 Arwain a chefnogi ymchwil yn y GIG yng Nghymru

Mae gwaith ymchwil sy’n cael ei wneud yn y GIG yng Nghymru trwy ein byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau GIG yn cynorthwyo’r ddealltwriaeth fyd-eang o iechyd, clefydau a thriniaethau a chanlyniadau, ac yn cynnig mynediad at opsiynau triniaeth newydd i gleifion Cymru, a all fod yn arbennig o bwysig ar gyfer cyflyrau lle rhoddwyd cynnig ar bob opsiwn arall eisoes. Dangosodd pandemig COVID-19 allu’r GIG – yng Nghymru ac ar draws y DU gyfan – i gydweithio a chyflawni gwaith ymchwil arloesol ar gyfradd uchel – yn fwyaf nodedig mewn treialon platfform ar gyfer therapiwteg ac yn y treialon ar gyfer brechlynnau COVID-19. Cyflawnwyd y gwaith ymchwil hwn i raddau helaeth nid mewn canolfannau academaidd ond mewn llawer o ysbytai a lleoliadau gofal iechyd ledled Cymru a’r DU.

Rydym hefyd yn gwybod bod sefydliadau GIG sy’n cymryd rhan weithredol mewn gwaith ymchwil clinigol yn gweld gwell canlyniadau iechyd a chyfraddau marwolaeth is, nid yn unig i’r cleifion hynny sy’n cymryd rhan mewn gwaith ymchwil, ond i bob claf[16]. Hefyd, mae buddsoddi mewn ymchwil clinigol yn arwain at fanteision economaidd i’r GIG a all gynorthwyo gwasanaethau rheng flaen gan gynnwys datblygu a chadw’r gweithlu clinigol[17].

Mae adrannau iechyd pob un o bedair gwlad y DU wedi cytuno ar ddull ar y cyd o ddarparu ymchwil clinigol yn y dyfodol a bellach yn ymgymryd â’i weithrediad[18]. Gydag ymrwymiadau gweinidogol gan lywodraeth, y nod yw sicrhau bod ein gwasanaethau cyflenwi ymchwil wedi’u canolbwyntio ar bobl; wedi’u symleiddio ac yn effeithlon; wedi’u galluogi gan ddata a dulliau digidol; wedi’u cefnogi trwy weithlu ymchwil cynaliadwy a bod ymchwil wedi’i ymwreiddio yn y GIG.

Mae amrywiaeth sylweddol o weithgareddau eisoes ar y gweill lle’r ydym yn gweithio gyda’n partneriaid yn y DU, er enghraifft i ail-osod portffolio ymchwil y GIG - gan gynnal adolygiad cynhwysfawr a manwl o’r holl astudiaethau cyfresol i asesu cynnydd a gweithio gydag arianwyr a noddwyr astudiaethau i benderfynu a yw astudiaethau ar y trywydd iawn ac y gellir eu cwblhau.[19] Rydym hefyd wedi bod yn gweithio’n agos gyda phartneriaid yn y DU i wella cyflymder ac effeithlonrwydd y broses o sefydlu astudiaethau, er enghraifft wrth ddatblygu Cymeradwyaeth yr

[16] https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC4342017/
[17] http://www.healthandcareresearchwales.org/sites/default/files/2020-10/impact_value_research_supported_NHS_organisations_Wales_2020.pdf
[18] https://www.gov.uk/government/publications/the-future-of-uk-clinical-research-delivery
[19] https://www.nihr.ac.uk/researchers/managing-research-recovery.htm

Awdurdod Ymchwil Iechyd ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (y broses gyfunol ar gyfer y GIG yng Nghymru a Lloegr sy'n cyfuno'r asesiad o lywodraethu a chydymffurfiad cyfreithiol â barn pwyllgorau moeseg ymchwil annibynnol) a chyflwyno'r Adolygiad Gwerth Contractau Cenedlaethol sy'n ddull cenedlaethol safonol o gostio ar gyfer ymchwil contractau masnachol.

Mae angen i ni wella ein perfformiad yng Nghymru nawr, gan adeiladu ar yr hyn yr ydym wedi ei ddysgu yn ystod yr ymateb i'r pandemig. Rydym wedi dangos grym cydweithredu ar draws ffiniau sefydliadol y GIG, yn fwyaf nodedig trwy ddull Cymru'n Un o gyflawni ymchwil. Mae angen bellach i ni wneud gweithio ar sail Cymru'n Un yr opsiwn diofyn pryd bynnag y bo'n bosibl. Mae gan hyn botensial i ddarparu newid sylweddol i greu gwasanaeth mwy syml i ymchwilwyr a noddwyr, gan leihau achosion o ailadrodd a chynyddu mynediad at ymchwil i bobl yng Nghymru. Ond mae hefyd yn golygu newid y ffordd yr ydym yn gweithio ar draws byrddau ac ymddiriedolaethau'r GIG, a mabwysiadu dull mwy cyfunol o flaenoriaethu, cynllunio a threfnu darpariaeth ymchwil.

Amlygodd argymhellion allweddol yn deillio o adolygiad "*Hyrwyddo Gyrfaoedd Mewn Ymchwil*" o lwybrau gyrfaoedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru bwysigrwydd hyrwyddo'r diwylliant a'r ecosystem ymchwil yn y GIG. Er bod pob sefydliad GIG yng Nghymru yn weithredol o ran ymchwil, mae'n parhau i gynnwys cyfran fach yn unig o'n gweithlu GIG, hyd yn oed yn ein sefydliadau sy'n fwyaf gweithredol o ran ymchwil.

Rydym o'r farn bod gan bob sefydliad GIG a phob aelod o staff ran fwy sylweddol i'r chwarae i hwyluso amgylchedd ymchwil cefnogol ac sy'n canolbwyntio ar bobl ac y bydd cynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ymchwil ymhlith y gweithlu ehangach yn sicrhau y rhoddir cyfle i fwy o bobl yng Nghymru gymryd rhan mewn ymchwil. Rydym yn cydnabod manteision ymwreiddio ymchwil mewn llwybrau gofal, codi'r ddarpariaeth o ymchwil allan o'r gwasanaeth rheng flaen, lleihau'r baich ar y GIG a gwneud y defnydd gorau o gyfleusterau ymchwil clinigol a modelau darparu o bell.

Mae adroddiadau gan gyrff fel Academi'r Gwyddorau Meddygol[20] a Choleg Brenhinol y Meddygon[21] wedi pwysleisio gwerth ymchwil i'r GIG. Mae sicrhau ymgysylltiad gwirioneddol a pharhaus â gwaith ymchwil yn rhan o strategaethau, fframweithiau a phrosesau cynllunio allweddol Llywodraeth Cymru ac wedi'i integreiddio yn fframweithiau cynllunio a chyflawni GIG Cymru. Mae angen gweithio i sicrhau bod ymchwil yn bresennol mewn datblygiadau newydd fel Gweithrediaeth y GIG ac wedi'i hymwreiddio mewn cynlluniau a rhwydweithiau clinigol cenedlaethol. Ymchwil yw un o'r tair colofn yn y rhaglen waith statws dynodiad prifysgol i sicrhau bod synergeddau

[20] https://acmedsci.ac.uk/policy/policy-projects/nhs-academia-interface
[21] https://www.rcplondon.ac.uk/projects/outputs/research-all-developing-delivering-and-driving-better-research

eglur yn cael eu datblygu gydag arloesedd a hyfforddiant ac addysg. Dylid blaenoriaethu datblygiad amgylchedd ymchwil sy'n meithrin i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn y sefydliadau GIG a ddylai weithio i ymwreiddio ymchwil yn eu strategaethau ar gyfer recriwtio a chadw staff a datblygu'r gweithlu. Dylai sefydliadau GIG fuddsoddi mewn cefnogaeth i yrfaoedd ymchwil a datblygiad ymchwilwyr, gweithio i sicrhau amser neilltuedig i'w hymchwilwyr, datblygu swyddi arweinyddiaeth ymchwil ac archwilio cyfleoedd i sicrhau mwy o swyddi academaidd clinigol.

Er mwyn diweddaru a gwella fframwaith cyflawni ymchwil a datblygu presennol y GIG, mae rhaglen newydd o waith wedi dechrau i lunio fframwaith asesu newydd ar gyfer ymchwil yn GIG Cymru a fydd yn cynorthwyo sefydliadau GIG i ymwreiddio ymchwil mewn gwasanaethau gofal iechyd craidd ac ategu gwaith ehangach yn y DU ar yr agenda darparu ymchwil glinigol. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru, yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'r GIG, hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu cynlluniau i gefnogi a hwyluso'r proffesiynau nyrsio, bydwreigiaeth, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a gwyddorau iechyd i groesawu ymchwil yn rhan o'u swyddogaethau a'u llwybrau gyrfaoedd. Mae mwy o amlygrwydd ar lefel bwrdd a chydag arweinwyr rheoli a chlinigol uwch yn hanfodol ac mae gan bob sefydliad GIG hyrwyddwr ymchwil bwrdd wedi'i nodi trwy aelod annibynnol.

Yn 2022, ffurfiwyd grŵp arweinyddiaeth ymchwil a datblygu GIG newydd ag aelodaeth o bob un o fyrddau ac ymddiriedolaethau'r GIG ac o Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Fe'i cadeirir gan un o Gyfarwyddwyr ymchwil a datblygu'r GIG a'i ddiben yw bwrw ymlaen ag ymchwil yn y GIG yng Nghymru ac i ddarparu cyngor i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae cadeirydd grŵp arweinyddiaeth ymchwil a datblygu'r GIG yn aelod o Fwrdd Cynghori Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru sy'n arwain y broses dynodi prifysgol (a'i hadnewyddiad cyfnodol) i fyrddau ac ymddiriedolaethau GIG i sicrhau ei bod yn cynnwys cyfres ystyrlon ac uchelgeisiol o ymrwymiadau i ymchwil ac arloesi.
- Byddwn yn cyd-gynhyrchu, gyda sefydliadau GIG a rhanddeiliaid eraill, fframwaith asesu newydd ar gyfer ymchwil yn y GIG yng Nghymru ac yn ei ddefnyddio yn ein hadolygiadau blynyddol o bob bwrdd ac ymddiriedolaeth y GIG i'w cynorthwyo i sicrhau cydbwysedd priodol o ymwreiddio ymchwil mewn gwasanaethau gofal iechyd craidd a lleihau'r baich ar wasanaethau rheng flaen trwy wahanol fodelau darparu
- Byddwn yn sicrhau mai gweithio ar sail Cymru'n Un ar gyfer darparu ymchwil fydd yr opsiwn diofyn pryd bynnag y bo'n bosibl, gan ganolbwyntio ein buddsoddiad cyflawni ymchwil yn y meysydd sydd o'r budd a'r gwerth

ychwanegol mwyaf i Gymru a gweithio i sefydlu dull cyfunol ac wedi'i gynllunio o ddarparu ymchwil.

- Byddwn yn cyflwyno ein cynlluniau ymgysylltu â diwydiant i ddarparu gwasanaeth cydlynol ac o ansawdd uchel i ddiwydiant, gan gynyddu proffil Cymru yn fyd-eang fel man sy'n darparu rhagoriaeth yn gyfochrog â thyfu partneriaethau ymchwil GIG, academaidd a diwydiant cydweithredol.
- Byddwn yn lleihau neu'n dileu ailadrodd ac yn cynyddu cyflymder ac effeithlonrwydd prosesau sefydlu a darparu astudiaethau ac yn monitro ac adolygu metrigau perfformiad astudiaethau.
- Byddwn yn adolygu dyfodol y gwasanaeth dylunio a chynnal ymchwil sy'n bodoli i gynorthwyo pobl sy'n gweithio yn y GIG ddatblygu syniadau ymchwil, ac ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r adnoddau hynny yn y dyfodol.
- Byddwn yn gweithio i ddatblygu cyfleoedd i staff GIG ddatblygu eu gyrfaoedd ymchwil drwy'r Gyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal a llwybrau eraill, ac i sicrhau bod cyfleoedd ar gael i grwpiau proffesiynol fel nyrsys, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a gwyddonwyr clinigol sydd wedi tueddu yn y gorffennol i fod â mynediad gwael at raglenni sydd eisoes yn bodoli ac amser neilltuedig cyfyngedig ar gyfer gwaith ymchwil.

## 7.3 Arwain a chefnogi ymchwil ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru

Yn y gorffennol, mae gwaith ymchwil ym maes gofal cymdeithasol yn y DU wedi bod o dan anfantais ddifrifol o'i gymharu â gwaith ymchwil ym maes gofal iechyd, ac er bod Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi gwneud cynnydd da o ran cefnogi a datblygu ymchwil gofal cymdeithasol, ceir bwlch mawr o ran capasiti a darpariaeth o hyd, ac mae buddsoddiadau mewn darparu ymchwil dal wedi'u canolbwyntio ar y GIG i raddau helaeth.

Rydym wedi cefnogi amrywiaeth o ymarferion darparu capasiti ym maes gofal cymdeithasol, gyda'r nod o ddatblygu ymgysylltiad a derbyngarwch ymchwil mewn awdurdodau lleol, er enghraifft drwy'r fenter Datblygu Ymarfer a Gyfoethogir gan Dystiolaeth (DEEP)[22], cefnogi gyrfaoedd ymchwil ym maes gofal cymdeithasol drwy'r Rhaglen Datblygu Capasiti Ymchwil a Phartneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Cymru a chefnogi gwaith ymchwil mewn cartrefi gofal drwy'r rhwydwaith Galluogi Ymchwil Mewn Cartrefi Gofal (ENRICH Cymru).[23] Rydym wedi darparu cyllid craidd i CASCADE, canolfan uchel ei pharch a llwyddiannus sy'n canolbwyntio ar ofal cymdeithasol i blant ac sydd wedi penodi arweinwyr arbenigol ar gyfer gofal cymdeithasol yn ddiweddar.

[22] https://www.deepcymru.org/cy/
[23] ENRICH Cymru | Health Care Research Wales (healthandcareresearchwales.org)

Mae gennym waith i'w wneud, fodd bynnag, i lenwi bylchau o ran sgiliau gwerthuso polisi ac ymchwil ar draws gofal cymdeithasol i oedolion ac i blant, ac o ran datblygu capasiti a gallu ar gyfer gwneud gwaith ymchwil a'i ddefnyddio fel tystiolaeth ar gyfer polisi ac ymarfer. Mae llywio'r amgylchedd gofal cymdeithasol i sefydlu astudiaethau a deall yr amgylchedd rheoleiddio yn parhau i beri problemau ac nid oes unrhyw seilweithiau ymchwil lleol tebyg i'r rhai sydd yn y GIG i hwyluso twf gweithgarwch ymchwil ac i ddarparu cymorth 'ar lawr gwlad' sy'n atal ymchwil rhag cael ei ymwreiddio yn y sector gofal cymdeithasol.

Mae ymchwil gofal cymdeithasol i blant yng Nghymru wedi bod yn faes o gryfder yng Nghymru. Fodd bynnag, cafwyd llawer llai o lwyddiant yn meithrin gwaith ymchwil i ofal cymdeithasol i oedolion, a phrin yw'r ymchwilwyr sy'n weithredol yn y maes hwn yng Nghymru. Mae rhai ymchwilwyr gofal cymdeithasol i oedolion blaenllaw wedi gadael Cymru i ddilyn eu gyrfaoedd mewn mannau eraill. Ar lefel y DU, ceir buddsoddiad cynyddol mewn ymchwil gofal cymdeithasol gan Ymchwil ac Arloesi yn y DU a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd, a cheir rhwydwaith sy'n tyfu o ganolfannau ymchwil gofal cymdeithasol yn Lloegr.

Bydd ein partneriaeth gref gyda Gofal Cymdeithasol Cymru (y rheoleiddiwr gofal cymdeithasol sy'n gyfrifol am ddatblygu gweithlu'r sector gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar yn ogystal â chefnogi ymchwil, arloesedd a gwella gwasanaethau gofal cymdeithasol) yn parhau i fod yn hanfodol bwysig wrth i ni ddatblygu sgiliau a chapasiti ymchwil gweithwyr ymchwil proffesiynol a'r gweithlu gofal cymdeithasol a hybu diwylliant o ganolbwyntio ar ymchwil a defnyddio tystiolaeth os ydym yn mynd i weld y newid trawsnewidiol sydd ei angen.

Byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Byddwn yn darparu cyllid ar gyfer canolfan ymchwil gofal cymdeithasol i oedolion newydd mewn cydweithrediad a phartneriaeth ag un o'r sefydliadau addysg uwch yng Nghymru sy'n weithredol yn y maes hwn, â phwyslais penodol ar gapasiti arweinyddiaeth ymchwil uwch.
- Byddwn yn parhau i gynnwys pynciau gofal cymdeithasol yn ein prosesau asesu a blaenoriaethu anghenion ac i fuddsoddi mewn ymchwil a gomisiynir ar ofal cymdeithasol (gweler adran 6)
- Byddwn yn datblygu capasiti a gallu ymchwil ym maes gofal cymdeithasol trwy Gyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
- Byddwn yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a Gofal Cymdeithasol Cymru i archwilio cymorth seilwaith ymchwil a modelau datblygu capasiti ymchwil penodol i'r sector sy'n addas i'r diben.
- Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau gofal cymdeithasol i ddatblygu ac ymwreiddio systemau a phrosesau ymchwil i gefnogi a darparu gwaith ymchwil.

## 7.4 Defnyddio data ar gyfer ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol

Mae'r defnydd o ddata rheolaidd at ddibenion ymchwil yn gryfder yng Nghymru - mae ein buddsoddiad hirhoedlog yn SAIL Databank wedi gwneud cyfraniad enfawr at gefnogi gwaith ymchwil yng Nghymru ac ar flaen y gad o ran datblygiadau yn y DU ac yn rhyngwladol yn ymwneud â'r defnydd diogel o ddata at ddibenion ymchwil. Mae casglu data iechyd ac nad yw'n ymwneud ag iechyd mewn platfform cyffredin i'w ddefnyddio yn fantais arbennig, gan ganiatáu i ystyriaeth gael ei rhoi i natur aml-ffased bywydau pobl, yn hytrach na deall trwy lens sengl o brofiad fel claf neu ddefnyddiwr gwasanaeth.

Mae buddsoddiad graddfa fawr yn y DU a ysgogwyd ar sail ein cyllid craidd i SAIL wedi arwain at sefydlu mentrau a alluogwyd gan ddata mawr, gan gynnwys: the Uned Ymchwil Data Gweinyddol - Cymru; Platfform Data Cyfiawnder Teuluol; a hybiau data ym meysydd iechyd meddwl a dementia. Mae'r ecosystem gynyddol hon wedi gwella'r galluoedd ymchwil yng Nghymru ac wedi hwyluso mwy o gydweithrediad rhwng academyddion a llunwyr polisi Llywodraeth Cymru.

Mae SAIL yn parhau i chwarae rhan allweddol yn Ymchwil Data Iechyd (HDR) y DU, a byddwn yn parhau i ddylanwadu a chael budd o'r swyddogaeth sylweddol y gallant ei chyflawni o ran hwyluso data at ddibenion ymchwil.

Nid yw harneisio grym data rheolaidd i gefnogi gwaith ymchwil heb ei heriau, ac mae'r adroddiad '*Better, Broader, Safer: Using Health Data for Research and Analysis*'[24] yn cynnig disgrifiad manwl o'r problemau ac atebion posibl. Byddwn yn gweithio gyda HDR UK a'n cymheiriaid mewn Llywodraethau ledled y DU i gydweithredu ar fynd i'r afael â'r problemau hyn. Yn benodol, ceir cyfle i fabwysiadu dull mwy ystyriol o ymgysylltiad â'r cyhoedd a rhanddeiliaid, gan gydweithio i weddnewid sut y gellir defnyddio data rheolaidd i gynorthwyo'r ddarpariaeth o ymchwil yn unol â disgwyliadau o ddefnydd priodol, ac i ailadrodd y gofynion llywodraethu gwybodaeth i alluogi amgylchedd cefnogol a dealladwy i weithredu ynddo.

Mae Gweledigaeth Ymchwil Glinigol y DU a Gweledigaeth Gwyddorau Bywyd y DU yn darparu'r llyw strategol ar gyfer ein gweithgareddau i greu amgylchedd ymchwil sydd wedi'i alluogi'n ddigidol ac sy'n barod ar gyfer y dyfodol yng Nghymru, yn enwedig: ehangu'r model o Amgylcheddau Ymchwil yr Ymddiriedir Ynddynt i gysylltu a defnyddio data at ddibenion ymchwil; a chreu cyfres o wasanaethau a ysgogir gan ddata a all gefnogi recriwtio a chyflawni treialon ymchwil. Byddwn yn gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru a Rhaglen Adnodd Data Cenedlaethol GIG Cymru fel partneriaid strategol i wireddu'r uchelgeisiau ar gyfer mwy o gymorth a darpariaeth ymchwil digidol.

---

[24] *Better, broader, safer: using health data for research and analysis* - GOV.UK (www.gov.uk)

Byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Byddwn yn gweithio gyda HDR UK, GIG Cymru a phartneriaid eraill ar ddatblygiad pellach disgwyliadau a safonau Amgylchedd Ymchwil yr Ymddiriedir Ynddynt, ac yn gweithredu'r rhain yn amgylchedd Cymru
- Byddwn yn adeiladu ar gryfderau SAIL fel Amgylchedd Ymchwil yr Ymddiriedir Ynddo ac yn hwyluso partneriaeth effeithiol gyda rhaglen newydd Adnodd Data Cenedlaethol GIG Cymru i wella mynediad at ddata iechyd a gofal at ddibenion ymchwil
- Byddwn yn gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru fel partner strategol i gefnogi integreiddiad agosach systemau ymchwil a chlinigol
- Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar ein potensial digidol i gefnogi'r broses o sefydlu astudiaethau, darpariaeth a mynediad at ymchwil, trwy sefydlu rhaglen o waith sy'n galluogi'r defnydd o ddata rheolaidd i gefnogi recriwtio a darpariaeth treialon ymchwil, wedi'i lunio gan waith ystyriaeth gyhoeddus i bennu disgwyliadau a dull

## 8. Defnyddio ymchwil i wella iechyd a gofal cymdeithasol

Byddwn yn gweithio gydag arweinwyr y system iechyd a gofal a'u sefydliadau i hybu'r defnydd effeithiol o waith ymchwil o ran arloesi a gwella, gan arwain at ledaeniad a chynyddu maint y gwelliannau hynny.
Yn ystod pandemig COVID-19, ariannodd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru Ganolfan Tystiolaeth COVID-19 i Gymru i gyflawni synthesisau tystiolaeth cyflym ond trwyadl a gwaith ymchwil sylfaenol cyflym i gefnogi anghenion gwneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill nad oeddent yn cael sylw drwy ymdrech ymchwil ehangach y DU a rhyngwladol. Datblygodd y Ganolfan Tystiolaeth COVID-19 i Gymru rwydwaith eang o gydweithredwyr a rhanddeiliaid yn gyflym, i gynorthwyo'r broses o nodi cwestiynau a oedd angen atebion brys gan weithio gyda Chell Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru i fireinio a blaenoriaethu'r anghenion hynny.

Gan fanteisio ar arbenigedd ym meysydd iechyd y cyhoedd, gwybodeg iechyd, synthesis tystiolaeth gan gynnwys adolygiadau systematig, economeg iechyd a gofal ac asesu technoleg iechyd, datblygodd y Ganolfan Tystiolaeth COVID-19 i Gymru raglen waith wedi'i hysgogi gan randdeiliaid yn gyflym, gan sicrhau'r defnydd o ymchwil mewn tystiolaeth ar gyfer rheoli'r pandemig ac i gynorthwyo adferiad ac adfywiad[25].

Daeth yn eglur yn gyflym iawn bod capasiti ar gyfer adolygu cyflym, synthesis tystiolaeth ac ymchwil sylfaenol cyflym i hysbysu'r broses o wneud penderfyniadau

[25] https://ymchwiliechydagofalcymru.org/amdanom-ni-cymuned-ymchwil/canolfan-dystiolaeth-covid-19-cymru

mewn polisi ac arferion yn angen canolog a pharhaus, â gwerth parhaus y tu hwnt i'r pandemig uniongyrchol.
Tan y pandemig, cymharol brin oedd y buddsoddiad yr oedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi ei wneud mewn synthesis tystiolaeth a gweithredu gwybodaeth, er ein bod yn gwneud cyfraniad ariannol at weithgareddau dosbarthu a gweithredu gwybodaeth Canolfan Ymgysylltu â Dosbarthu'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd. Mae'r Hysbysiadau, y Casgliadau a'r Adolygiadau â Thema a gyhoeddir gan y Ganolfan Ymgysylltu â Dosbarthu yn trafod prosiectau a ariennir gan ein cynlluniau ariannu ein hunain a'r rhai a ariennir trwy raglenni'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd y mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn buddsoddi ynddynt, ond hefyd yn ymestyn i brosiectau sylweddol a ariennir ar draws y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a thu hwnt.

Byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Byddwn yn cyhoeddi Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru newydd sy'n adeiladu ar lwyddiannau'r Ganolfan Tystiolaeth COVID-19 i Gymru ac yn eu prif-ffrydio. Bydd y Ganolfan Dystiolaeth newydd yn gweithio ar draws gylch gwaith llawn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, gan fynd i'r afael â materion o flaenoriaeth allweddol ym maes iechyd, iechyd y cyhoedd a gofal cymdeithasol. Bydd yn cael ei ariannu yn dilyn galwad agored a chystadleuol am geisiadau ac yn weithredol o fis Ebrill 2023.
- Byddwn yn adolygu ein buddsoddiad parhaus yng Nghanolfan Ymgysylltu a Dosbarthu'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a'n partneriaeth â hi yng ngoleuni datblygiad Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.
- Byddwn yn ymgysylltu ag arianwyr eraill, er enghraifft trwy fforwm Ensuring Value in Research i nodi a dysgu o arferion gorau a allai hysbysu ein gweithgareddau dosbarthu a gweithredu gwybodaeth.

## 9. Themâu trawsbynciol

### 9.1 Cyfathrebu, ymgysylltu, a chyfranogiad

I gyflawni amcanion y cynllun hwn, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i godi proffil Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru trwy arddangos effaith gwaith ymchwil, gan weithio mewn partneriaeth ar draws sectorau a thrwy gynnwys mwy o'n cymunedau i helpu i lunio a chymryd rhan mewn astudiaethau.

Gan fod cynifer o sefydliadau yn ymwneud ag ariannu a darparu gwaith ymchwil, gan gynnwys byrddau iechyd, prifysgolion, elusennau, diwydiant a sefydliadau eraill a ariennir, mae wedi bod yn anodd yn y gorffennol cyfathrebu a dangos ei effaith gyfunol, a'i bwysigrwydd o ran gwella gofal a gwasanaethau.

Amlygodd treialon brechlynnau a thriniaeth cenedlaethol yn ystod COVID-19 gyfraniad sylweddol Cymru at ymdrech ymchwil y DU, y gwnaethom lwyddo i'w

helaethu trwy strategaeth gyfathrebu Cymru'n Un gydgysylltiedig. Fe wnaeth gweithio mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, byrddau iechyd, prifysgolion a noddwyr treialon hefyd roi hwb i recriwtio i astudiaethau, yn ogystal â datblygu mwy o ddealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o bwysigrwydd gwaith ymchwil. Ein bwriad yw adeiladu ar yr etifeddiaeth hon trwy ddull Cymru'n Un gyfathrebu ar gyfer yr **holl** ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol a ariennir neu a ariennir yn rhannol gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, a fydd yn sail i'r cynllun tair blynedd.

Byddwn yn datblygu brand Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ymhellach ymhlith ein rhanddeiliaid a'r cyhoedd trwy fod yn eglur ynghylch pwy ydym ni a'r hyn yr ydym yn ei wneud, yn darparu fframwaith cydlynol a thôn a neges gyson, ac yn cefnogi arweinwyr cyfathrebu, ymgysylltu a chyfranogiad ein seilwaith a ariennir a phartneriaid eraill sy'n darparu ymchwil.

Bydd gan ein gweithgarwch cyfathrebu, ymgysylltu a chyfranogiad hunaniaeth Gymreig gryf gan gyd-fynd â chyfathrebu ehangach Llywodraeth Cymru a strategaethau ymchwil y DU fel *RRG - The Future of UK Clinical Research Delivery* a *Be Part of Research*. Byddwn hefyd yn gweithio gydag arweinwyr y gwledydd datganoledig ar weithgarwch ledled y DU i sicrhau bod cyfraniad Cymru at ymchwil yn cael ei gydnabod a'i hyrwyddo.

Dros y tair blynedd nesaf, bydd ein strategaeth cyfathrebu, ymgysylltu a chyfranogiad yn codi ymwybyddiaeth o effaith ymchwil yng Nghymru trwy sylw yn y cyfryngau, digwyddiadau ymgysylltu cyhoeddus, cynadleddau a chyfryngau cymdeithasol. Byddwn yn hwyluso croes-hyrwyddo gyda'n partneriaid trwy ddatblygu ein Cynghreiriau Cyfathrebu a Chyfranogiad Cyhoeddus llwyddiannus, gan rannu arferion gorau, cydweithredu ar raglenni allweddol o waith a ariannwyd yn ogystal â chynorthwyo recriwtio i astudiaethau cenedlaethol.

Byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Byddwn yn cefnogi ymchwilwyr newydd a phresennol, academyddion a chymuned ymchwil y GIG i gyfathrebu effaith eu gwaith a chynnwys y cyhoedd yn eu gwaith ymchwil. Bydd hyn yn cynnwys codi proffil eu hymchwil ar sianelau cyfathrebu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, darparu rhaglen hyfforddiant cyfryngau wedi'i theilwra, a datblygu ein rhaglen Llysgenhadon ar gyfer arweinwyr ymchwil uwch fel y gallant fod yn Llysgenhadon brand mwy effeithiol i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.
- Byddwn yn cynnig cyfleoedd i fwy o gymunedau a grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli ledled Cymru gymryd rhan mewn gwaith ymchwil, gan gynnwys helpu i ddylunio a chymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil. Bydd hyn yn cynnwys hyrwyddo cyfleoedd cyfranogiad cyhoeddus, darparu hyfforddiant, a hwyluso gwaith allgymorth gyda dylanwadwyr cymunedol. Byddwn hefyd yn adeiladu ar gam cyntaf ein hymgyrch ymgysylltu cyhoeddus 'Ble fydden ni heb ymchwil?' i ddod ag ymchwilwyr, y GIG ehangach a'r cyhoedd at ei gilydd.

## 9.2 Cynnwys cleifion a'r cyhoedd mewn ymchwil iechyd a gofal

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi ymrwymo i wella cyfradd ac ansawdd cyfranogiad cyhoeddus ar draws ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru fel ei fod yn gyson ragorol. Mae ymwreiddio cyfranogiad cyhoeddus mewn ymchwil yn gofyn am amser ac adnoddau, nid yn unig yn y prosiectau ymchwil unigol, ond drwy holl strwythurau a phrosesau'r amgylchedd ymchwil cyfan. Mae hyn yn flaenoriaeth i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac rydym yn ei ddisgwyl gan y rhai yr ydym yn eu hariannu a'u cynorthwyo.

Rydym yn falch o weithgareddau, arloesedd ac arweinyddiaeth ar yr agenda cyfranogiad cyhoeddus sydd wedi dod o gymuned Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, yn manteisio ar ymrwymiad, profiadau ac egni cyfranwyr cyhoeddus, ymchwilwyr ac arweinwyr cyfranogiad cyhoeddus. Nid yn unig y mae'r ymdrechion hyn wedi bod yn effeithiol o ran hwyluso gweithgarwch cyfranogiad cyhoeddus o ansawdd uchel, ar draws yr holl weithgareddau datblygu, ariannu a darparu ymchwil yng Nghymru, ond mae'n cael ei ddangos yn gynyddol gan staff cyfranogiad cyhoeddus a chyfranwyr cyhoeddus o Gymru yn cyflawni swyddogaeth arweinyddol mewn trafodaethau a mentrau ar lefel y DU. Rydym wedi bod yn ganolog i ddatblygiadau yn ymwneud â Safonau Cyfranogiad Cyhoeddus y DU[26] a'r gwaith ar ganllawiau taliadau cyfranwyr cyhoeddus ac rydym yn falch o fod yn rhan o'r grŵp sy'n llunio Ymrwymiad Cyffredin y DU i Gyfranogiad Cyhoeddus.

Fodd bynnag, mae'r dasg o ymgymryd â chyfranogiad cyhoeddus ystyrlon yn un o welliant parhaus, ac mae mwy y gallwn ei wneud bob amser.

Mae'r Cynllun Gweithredu Adferiad, Cydnerthedd a Thwf[27] diweddar yn cynnwys 'ymchwil sy'n canolbwyntio ar bobl' fel thema allweddol, yn pwysleisio'r angen i'r cyhoedd allu dylanwadu ar ddyluniad gwaith ymchwil i'w wneud yn berthnasol, yn ogystal â gallu cael mynediad at gyfleoedd ymchwil yn haws. Bydd ein cyfraniadau at gyflawni hyn yn adeiladu ar y cynllun 'Gwaith Ymchwil ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol - darganfod eich rôl'[28] a gyd-ddyluniwyd gydag aelodau'r cyhoedd a'r gymuned ymchwil, sy'n dal i fod yn ganolbwynt i'n gweithgarwch i gefnogi'r agenda cyfranogiad cyhoeddus trwy gyfeiriad strategol a chamau ymarferol.

---

26 Safonau Cyfranogiad Cyhoeddus y DU (google.com)
27 *The Future of Clinical Research Delivery: 2022 to 2025 implementation plan* - GOV.UK (www.gov.uk)
28 Gwaith Ymchwil ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol - darganfod eich rôl (ymchwiliechydagofalcymru.org)

Mae ein camau allweddol yn cynnwys:

- Byddwn yn gweithio yn rhan o Grŵp Cyfranogiad Cyhoeddus y Pum Gwlad i arwain a chydweithredu ar brosiectau sy'n mynd i'r afael â rhwystrau gweinyddol a system i gyfranogiad cyhoeddus ystyrlon
- Byddwn yn creu dulliau ac adnoddau i gynorthwyo ymchwilwyr i ymgorffori cyfranogiad cyhoeddus ystyrlon yn eu gwaith, gan fanteisio ar Safonau'r DU fel y fframwaith ar gyfer arfer da
- Byddwn yn ehangu'r cyfleoedd i boblogaeth fwy amrywiol yng Nghymru gymryd rhan yn y gwaith o lunio, hysbysu, adolygu a darparu gwaith ymchwil o ansawdd uchel, gan weithio gyda grwpiau cymunedol lleol a sefydliadau cenedlaethol
- Byddwn yn parhau i weithredu'r strategaeth ymgysylltu cyhoeddus tair blynedd29 a gyhoeddwyd gennym yn 2021, i hyrwyddo'r swyddogaeth hollbwysig y mae'r cyhoedd yn ei chyflawni o ran galluogi ymchwil i ddigwydd, a sut y gallant gymryd rhan.

## 9.3 Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn ymchwil iechyd a gofal

Er bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gwaith wedi bod yn bwysig i ni erioed, mae pandemig COVID-19 a datblygiadau byd-eang eraill wedi amlygu pwysigrwydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant fel erioed o'r blaen. Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi ymrwymo'n llawn i'r agenda hon ac wedi ymrwymo i ymchwil iechyd a gofal yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o wella bywydau holl bobl, cleifion a chymunedau Cymru. Mae'r digwyddiadau yn 2020 wedi rhoi pwyslais pendant ar anghydraddoldeb i bawb. I waith ymchwil fod yn ystyrlon a chael effaith, mae'n rhaid i ni gydnabod amrywiaeth yn ein poblogaeth a sicrhau bod ein holl weithgareddau yn gynhwysol, gan ddathlu a chroesawu pawb beth bynnag fo'u sefyllfa o ran daearyddiaeth, statws economaidd-gymdeithasol, oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, rhyw, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd neu famolaeth, rhanbarth neu gred a mynediad at iechyd a gofal cymdeithasol.

Bu datblygiadau cadarnhaol ar draws Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru hyd yma ac yn benodol rydym wedi gweld gwelliannau i'r ffordd yr ydym yn monitro data ar draws rhaglenni ariannu a chyfleoedd cyfranogiad cyhoeddus, recriwtio wedi'i dargedu i astudiaethau, ymgyrchoedd gwell ymgysylltiad cyhoeddus a bu mwy o bwyslais yn ein rhaglenni gwaith ar gynnwys pobl â phrofiadau bywyd o lunio gwaith ymchwil.

Mae gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru gyfrifoldeb eglur i sicrhau y rhoddir sylw i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein holl weithgareddau a'u bod yn cael

[29] Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd ddrafft Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru 2021 - 2024

eu hymwreiddio ym mhopeth yr ydym yn ei wneud, fel ein bod yn gwasanaethu poblogaeth Cymru, gyda'r genhadaeth o wella bywydau *holl* gleifion, pobl a chymunedau Cymru. Felly, byddwn yn cyflwyno cynllun gweithredu mwy diffiniedig a systematig a fydd yn arwain at fwy o gynwysoldeb ar draws ein holl weithgareddau, gan fabwysiadu dull cyd-greu mewn ymgynghoriad â'r gymuned.

Byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Byddwn yn datblygu cynllun gweithredu a fydd yn arwain at fwy o gynwysoldeb ar draws ein holl weithgareddau, gan fabwysiadu dull cyd-greu mewn ymgynghoriad â'r gymuned.
- Byddwn yn creu mwy o arweinyddiaeth dros gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws ein rhaglenni gwaith a sicrhau eu bod wedi'u hymwreiddio'n llawn ar lefel polisi a darpariaeth trwy ein gweithgareddau a ariennir.
- Byddwn yn mynd i'r afael â thangynrychiolaeth yn ein harferion ein hunain e.e. ar baneli ariannu, mewn cyfranogiad cyhoeddus, mewn prosesau llywodraethu (fel byrddau cynghori)
- Byddwn yn gweithio gydag arianwyr eraill i ddysgu o arferion gwaith da a sicrhau bod materion sy'n berthnasol i grwpiau lleiafrifoedd yn rhan o bortffolios ymchwil.
- Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau partner gan gynnwys Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a phartneriaid sector cyhoeddus ehangach (y GIG, SAUau ac Awdurdodau Lleol) i wella cynrychiolaeth o fewn y gweithlu a datblygu mentrau, arferion gwaith a hyfforddiant i ddenu ystod fwy amrywiol o bobl i yrfaoedd ymchwil a'r gweithlu ymchwil ehangach.
- Byddwn yn ymrwymo i gyhoeddi data amrywiaeth ar draws yr amrywiaeth o weithgareddau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac yn monitro hyn yn barhaus i nodi meysydd i'w gwella.

## 10. Casgliad: mae ymchwil yn bwysig pan fo ymchwil yn gweithio

Rhoddwyd y teitl "Mae ymchwil yn bwysig" i'r cynllun hwn yn fwriadol – i adlewyrchu faint rydym wedi ei ddysgu dros y ddwy neu dair blynedd ddiwethaf am ba mor ganolog y gall ac y dylai ymchwil fod i benderfyniadau gan bobl a sefydliadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ei hanfod, gall ymchwil wella iechyd a gofal cymdeithasol mewn ffyrdd sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau cleifion, pobl a chymunedau yng Nghymru, ac yn wir mae yn gwneud hynny. Ond – i wneud hynny'n dda, mae gennym gyfrifoldeb a rennir i sicrhau ein bod yn defnyddio'r buddsoddiad mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol mor effeithiol ac effeithlon â phosibl – i gyflawni gwaith ymchwil gwych, a'i weld yn cael ei ddefnyddio mewn polisi ac yn ymarferol.

Rydym yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i’r cynllun hwn, y byddwn yn ei adolygu a’i ddiweddaru’n flynyddol i fapio a mesur cynnydd (a chydnabod a mynd i’r afael â phroblemau neu anawsterau pan fyddant yn codi) ac i ddiweddaru’r naratif a chamau arfaethedig i gymryd i ystyriaeth y cyd-destun newidiol i ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol, yng Nghymru a ledled y DU.